OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 394

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003

## RHAN 2

### HYSBYSIADAU GORFODI O DAN ADRAN 172

**Materion ychwanegol i'w nodi mewn hysbysiad gorfodi**

**3.** Rhaid i hysbysiad gorfodi a ddyroddir o dan adran 172 o'r Ddeddf Gynllunio nodi—

(a) y rhesymau pam y mae'r awdurdod cynllunio lleol o'r farn ei bod yn briodol dyroddi'r hysbysiad;

(b) pob polisi a chynnig yn y cynllun datblygu sy'n berthnasol i'r penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad gorfodi; a

(c) union ffiniau'r tir y mae'r hysbysiad yn berthnasol iddo, boed drwy gyfeirio at blan neu fel arall.

**Nodyn esboniadol i'w anfon gyda chopi o'r hysbysiad gorfodi**

**4.** Rhaid i bob copi o hysbysiad gorfodi a gyflwynir gan awdurdod cynllunio lleol o dan adran 172(2) o'r Ddeddf Gynllunio gael ei anfon gyda nodyn esboniadol a rhaid i hwnnw gynnwys yr hyn a ganlyn—

(a) copi o adrannau 171A, 171B a 172 hyd 177 o'r Ddeddf Gynllunio, neu grynodeb o'r adrannau hynny gan gynnwys y wybodaeth ganlynol—

(i) bod hawl apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol yn erbyn yr hysbysiad gorfodi hwnnw;

(ii) bod modd gwneud apêl dim ond drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o'r apêl i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad gorfodi fel y dyddiad y bydd yn effeithiol arno neu drwy anfon hysbysiad o'r fath i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn llythyr wedi'i gyfeirio yn gywir, y talwyd am ei gludiant ymlaen llaw, ac sydd wedi'i bostio iddo ar y fath amser fel, yn ôl gwasanaeth arferol y post, y byddai'n cyrraedd cyn y dyddiad hwnnw;

(iii) ar ba seiliau y gellid gwneud apêl o dan adran 174 o'r Ddeddf Gynllunio;

(iv) y ffi i'w thalu o dan rheoliad 10 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989(**1**) am y cais tybiedig am ganiatâd cynllunio i'r datblygiad yr honnir iddo dorri'r rheolaeth gynllunio yn yr hysbysiad gorfodi;

(b) hysbysiad bod rhaid i apelydd anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol, naill ai wrth roi rhybudd o apêl neu o fewn 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn anfon

(**1**) O.S. 1989/193, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1991/2735 ac y mae diwygiadau eraill iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

hysbysiad at yr apelydd yn gwneud hynny'n ofynnol, ddatganiad ysgrifenedig sy'n nodi'r seiliau y mae'r apelydd yn apelio arnynt yn erbyn yr hysbysiad gorfodi gan ddatgan yn gryno'r ffeithiau y mae'r apelydd yn bwriadu dibynnu arnynt i gefnogi pob un o'r seiliau hynny; ac

(c) rhestr o enwau a chyfeiriadau y personau y mae copi o'r hysbysiad gorfodi wedi'i gyflwyno iddynt.